PŴER DATA

TROSOLWG I'R ATHRO

Cynnwys

- Nodau *Pŵer Data*
- Cyflwyniad
- Strwythur *Pŵer Data*
- Gwahaniaethu
- Grŵp oedran
- Adnoddau addysgol eraill defnyddiol gan Oxfam
- Amlinelliad manwl o'r adnoddau
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cydnabyddiaethau

Nodau *Pŵer Data*

- Cefnogi athrawon i gyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer cyfrifiadura yn Lloegr, 'ICT to Enhance Learning' yn yr Alban a'r Fframwaith Cymwyseddau Digidol yng Nghymru.
- Defnyddio data gwirioneddol er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr a'u galluogi i weld perthnasedd ymarferol cyfrifiadura yn y byd o'u hamgylch.
- Annog dulliau addysgu a dysgu sy'n annog disgyblion i gymryd rhan, i ymchwilio ac i gydweithio.
- Hyrwyddo sgiliau meddwl yn feirniadol am faterion sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb.

Cyflwyniad

Pŵer data

Mae data ym mhobman o'n cwmpas, gan siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo. P'un ai ar-lein neu all-lein, mae gan bob un ohonom ôl troed data sy'n tyfu'n barhaus. O osod cyllidebau'r llywodraeth i stocio silffoedd archfarchnadoedd, o hysbysebion ar gyfryngau cymdeithasol i oleuadau traffig, mae'r swm enfawr o ddata a gesglir amdanom yn cael dylanwad cynyddol ar ein byd.

Ni fu erioed fwy o angen cefnogi pobl ifanc i geisio deall data sut y mae modd eu defnyddio (yn ogystal â sut y gallent gael eu camddefnyddio). Mae casglu, dadansoddi, gwerthuso a chyflwyno data yn sgiliau hanfodol yng nghwricwla cyfrifiadura y DU ac elfennau pwysig o gwricwla mathemateg a phynciau eraill hefyd. Mae'r adnodd yma'n seiliedig ar fewnbwn a chefnogaeth gan Computing At School, ac mae wedi'i greu ar gyfer disgyblion 9-13 oed er mwyn dangos diben cyfrifiadura drwy ddefnyddio data bywyd go iawn o wahanol wledydd a chymunedau yn y byd.

Bydd dysgwyr yn ystyried pa ddata sy'n cael eu casglu am ein bywydau a sut y defnyddir y data hyn. Byddant yn casglu ac yn cyflwyno data i ddangos sut maent yn treulio eu hamser yn ystod

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

diwrnod arferol, cyn meddwl am sut y gallai data "defnyddio amser" amrywio ymhlith pobl ifanc mewn gwahanol rannau o'r DU ac mewn mannau eraill yn y byd. Bydd dysgwyr wedyn yn meddwl am yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn dda mewn bywyd a sut y gall data helpu cymunedau, llywodraethau a sefydliadau i wneud penderfyniadau wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddant yn cael eu cyflwyno i'r prosiect Bywydau Ifanc a byddant yn defnyddio offer delweddu data i archwilio data defnydd amser gan bobl ifanc yn Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam.

Bydd dysgwyr hefyd yn cael gwybod am bwysigrwydd data wrth godi ymwybyddiaeth o faterion a herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i weithredu. Yn olaf, bydd dysgwyr yn ymchwilio i ddata "llesiant" o bedair gwlad Bywydau Ifanc yn ogystal â'r DU, ac yn creu ffeithluniau i godi ymwybyddiaeth o rai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng bywydau pobl ifanc.

Beth yw'r prosiect Bywydau Ifanc?

Mae Bywydau Ifanc yn brosiect ymchwil rhyngwladol sy'n astudio achosion a chanlyniadau tlodi plant. Ers dros 15 mlynedd, mae ymchwilwyr wedi dilyn bywydau bron i 12,000 o blant mewn pedair gwlad. Arweinir y prosiect gan dîm yn yr Adran Datblygu Rhyngwladol ym Mhrifysgol Rhydychen yn y DU, ar y cyd â phartneriaid ymchwil a pholisi mewn pedair gwlad astudio: Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam.

Mae'r ymchwil wedi dilyn pob un o'r 12,000 o blant ac wedi cynnwys ymweliadau mynych â'u cymunedau bob tair blynedd. Casglwyd data arolwg am eu bywydau, eu teuluoedd, eu cymunedau a'u hysgolion drwy gyfweliadau â'r holl blant, yn ogystal â'u rhieni a rhai cynrychiolwyr cymunedol. Mae gwaith manwl pellach wedi'i wneud gyda nifer llai o blant ym mhob gwlad lle treuliodd ymchwilwyr tua wythnos yn y gymuned, gan weithio gyda'r plant yn unigol ac mewn grwpiau gyda'u cyfoedion. Maent hefyd wedi cyfweld ag aelodau eraill o'u teuluoedd a'u cymunedau. Darparodd hyn y math o fewnwelediad a gwybodaeth sy'n anodd ei chipio mewn holiadur arolwg mawr

Mwy o wybodaeth am Bywydau Ifanc: www.younglives.org.uk

Sut y caiff data'r prosiect Bywydau Ifanc eu defnyddio?

- *Cynllunio ar gyfer y dyfodol*

Nod Bywydau Ifanc yw darparu tystiolaeth i lywodraethau a sefydliadau rhyngwladol er mwyn eu helpu i wella polisïau a rhaglenni i blant. Mae'r ymchwilwyr wedi cael cipolwg manwl ar fywydau'r plant unigol a'u teuluoedd ac wedi dysgu llawer iawn amdanynt; megis ble a sut maent yn byw, y problemau y maent yn eu hwynebu ac a ydynt yn ystyried bod eu bywydau'n dda neu'n ddrwg. Maent wedi archwilio gobeithion ac ofnau'r plant, yn ogystal â'u breuddwydion ar gyfer y dyfodol.

Mae llywodraethau a sefydliadau yn defnyddio data, fel y data gan Fywydau Ifanc, i'w helpu i benderfynu sut i ddyrannu arian ac adnoddau. Maent hefyd yn dibynnu ar ddata i osod targedau ar gyfer datblygu a monitro cynnydd tuag at y rhain. Ym mis Medi 2015, daeth arweinwyr cefn gwlad at ei gilydd i gytuno ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Cyfres o nodau yw'r Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n anelu at wneud ein planed yn deg, yn iach ac yn gynaliadwy erbyn 2030. Defnyddir data i fesur cynnydd o ran y Nodau Datblygu Cynaliadwy bob blwyddyn, gyda'r nod o gyflawni'r holl nodau erbyn 2030.

Darllenwch ragor o wybodaeth am y newidiadau: sustainabledevelopment.un.org/sdgs

Gweledigaeth Oxfam yw byd heb dlodi ynddo. Mae'n gweithio gyda sefydliadau partner a chymunedau mewn dros 90 o wledydd i ymateb i argyfyngau, cefnogi pobl i gymryd camau tymor canolig a hirdymor i godi eu hunain allan o dlodi ac ymgyrchu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon. Trosolwg i'r Athro

OXFAM

tlodi. Mae data, fel data gan Fywydau Ifanc, yn helpu Oxfam i nodi pa wledydd, cymunedau neu grwpiau o bobl sydd â'r angen mwyaf am gymorth.

• *Codi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb*

Mae sefydliadau fel Oxfam hefyd yn defnyddio data i godi ymwybyddiaeth o faterion fel anghydraddoldeb a'r newid yn yr hinsawdd; amlygu'r effeithiau ar gymunedau ledled y byd a herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i weithredu.

Un mater allweddol y mae Oxfam yn gweithio arno yw anghydraddoldeb, sy'n cyfeirio at wahaniaethau mawr mewn poblogaeth o ran eu cyfoeth, eu hincwm a'u mynediad at wasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg. Gall y gwahaniaethau hyn ddigwydd rhwng cymunedau yn yr un wlad, neu rhwng gwledydd. Gall anghydraddoldeb hefyd fod yn berthnasol i gyfleoedd anghyfartal (cyfleoedd bywyd) a chanlyniadau.

Mae bwlch sy'n tyfu'n gyflym rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn cael ei weld mewn llawer o wledydd ledled y byd. Rydym bellach yn byw mewn byd lle mae'r 62 o bobl gyfoethocaf yn berchen ar yr un cyfoeth â hanner tlotaf poblogaeth y byd (3.6 biliwn o bobl). Mae saith o bob 10 o bobl yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Pe bai cyfoeth cyfan y blaned yn cael ei rannu'n ddau, byddai bron hanner yn mynd i'r 1 y cant cyfoethocaf a'r hanner arall i'r 99 y cant sy'n weddill o'r boblogaeth. Mae anghydraddoldeb hefyd yn broblem gynyddol yn y DU. Mae'r pum teulu cyfoethocaf yn y DU bellach yn gyfoethocach na'r 20 y cant isaf o'r boblogaeth (12.6 miliwn o bobl).

I gael rhagor o wybodaeth gefndir am anghydraddoldeb, gweler y nodiadau *Cefndir ar gyfer athrawon* yn adnodd mathemateg *More or Less Equal?* Oxfam: www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-maths

Strwythur *Pŵer Data*

Mae'r adnodd yn cynnwys y canlynol:

- Cynlluniau ar gyfer tair uned (yn cynnwys adnoddau a thaflenni gweithgareddau cysylltiedig)
- Sioe sleidiau (i'w defnyddio ar gyfer y tair uned)
- Tair taenlen (i'w defnyddio gydag *Unedau 2 a 3*)
- Clip fideo byr (*Trafod Bywydau Ifanc*) a nodiadau cefndir cysylltiedig ar gyfer y Fideo (i'w defnyddio gyda syniad am weithgaredd pellach yn Uned 2 er mwyn cynnig rhagor o hyder i ddysgwyr hŷn)
- *Gwerthuso eich dysgu* (asesu'r hyn a ddysgwyd ar ddiwedd pob uned)

Rydym wedi ceisio cadw'r adnoddau mor hyblyg â phosibl, fel y gall athrawon greu teithiau dysgu personol i'w dysgwyr. Gall athrawon benderfynu hepgor rhai gweithgareddau yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a gwybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion presennol eu dysgwyr. Tybir y bydd athrawon yn dewis lledaenu'r gweithgareddau mewn uned dros fwy nag un wers.

Mae pob uned yn dechrau gyda throsolwg ac yn cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiadau cwricwlaidd. Darperir amseroedd bras i weithgareddau a awgrymir ond nid ydynt yn cynnwys yr amser y gallai fod ei angen ar gyfer addysgu ychwanegol am rai o'r cysyniadau. Gan fod yr unedau wedi'u cynllunio at ddefnydd hyblyg ar draws mwy nag un wers, gall cyfanswm yr amser a gymerir i gwblhau'r holl weithgareddau amrywio. Ni chaiff unrhyw

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

gynigion ynghylch dechrau sesiynau a chynnal sesiynau llawn eu cynnig gan y tybir y bydd athrawon am gynllunio'r rhain yn unigol.

Trosolwg o bob uned:

Uned 1 – Meddwl am ddata

Bydd dysgwyr yn trafod beth yw data. Byddant yn archwilio enghreifftiau o ddata a gesglir am eu bywydau, ac yn ystyried sut mae'r data hyn yn cael eu defnyddio gan wahanol bobl a sefydliadau. Bydd dysgwyr yn casglu ac yn cyflwyno data i ddangos sut maen nhw'n treulio'u hamser yn ystod diwrnod arferol. Yn olaf, byddant yn cymharu eu data "defnydd amser" ag eraill yn y dosbarth ac yn dyfalu sut y gallai "data defnydd amser" amrywio ymhlith pobl ifanc mewn gwahanol rannau o'r DU ac mewn mannau eraill yn y byd.

Uned 2 – Data am Fywydau Ifanc

Bydd dysgwyr yn meddwl am yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud yn dda mewn bywyd a'r gwahaniaeth rhwng "anghenion" a "pethau y mae pobl eu heisiau". Byddant wedyn yn ystyried sut y byddent yn gwario arian cymuned a sut y gallai data gefnogi eu penderfyniadau. Nesaf, bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i Fywydau Ifanc ac yn dechrau meddwl am sut mae'r data a gesglir yn ystod y prosiect hwn yn cael ei ddefnyddio gan lywodraethau a sefydliadau (fel Oxfam) i gefnogi cymunedau. Yn olaf, bydd dysgwyr yn defnyddio offer delweddu data i archwilio a chyflwyno data "defnydd amser" gan y cymunedau Bywydau Ifanc. Byddant yn cymharu data "defnydd amser" gan fechgyn a merched, yn ogystal â phlant sy'n byw mewn cymunedau trefol neu wledig, ac yn trafod rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau.

Uned 3 – Pŵer data

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn creu ffeithluniau syml sy'n codi ymwybyddiaeth o rai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng bywydau pobl. Bydd dysgwyr yn ystyried yn gyntaf sut a pham mae llywodraethau a sefydliadau yn defnyddio data i wneud penderfyniadau wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddant yn ymchwilio i rai ffyrdd y caiff "llesiant" ei fesur yn feintiol ac yn ystyried cwestiynau am ddata o bedair gwlad Bywydau Ifanc, yn ogystal â'r DU. Bydd dysgwyr wedyn yn trafod beth mae anghydraddoldeb yn ei olygu a sut y gall fodoli rhwng ac o fewn gwledydd. Byddant yn archwilio sut mae sefydliadau, fel Oxfam, yn defnyddio ffeithluniau i godi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb, cyn mynd ymlaen i greu ffeithluniau eu hunain.

Gwahaniaethu

Lle bo modd, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi'u gwahaniaethu i'ch helpu i ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn y dosbarth. Gallai hyn hefyd fod yn ddefnyddiol wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion dysgwyr iau a hŷn.

Mae llawer o'r gweithgareddau'n tybio y bydd cyfrifiadur neu dabled ar gael i ddysgwyr. Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, darparwyd dewisiadau eraill i alluogi dysgwyr i gwblhau gweithgareddau heb fynediad i gyfrifiadur.

Grŵp oedran

Mae'r adnoddau hyn yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr 9 i 13 oed. Darperir cysylltiadau cwricwlaidd ar gyfer cwricwla CA2 a CA3 yn Lloegr, a'r cwricwla perthnasol yng Nghymru a'r Alban. Fodd bynnag, gellid addasu llawer o'r gweithgareddau i'w defnyddio hefyd gyda dysgwyr iau neu hŷn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwerthusiad

Darperir cyfres o "olwynion gwerthuso" i asesu dysgu ar ddiwedd pob uned yn *Gwerthuso eich dysgu*. Mae olwyn werthuso wag hefyd i athrawon greu eu gwerthusiadau eu hunain i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr.

Nodiadau addysgu pwysig

- *Bwriad y gweithgareddau a'r adnoddau hyn yw cefnogi eich addysgu, yn hytrach na'i arwain. Gall fod fod angen addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cyndenwau hyn.*
- *Gallai rhywfaint o'r data yn yr adnodd hwn, megis y data gan Fanc y Byd, newid. Felly, os yw eich dysgwyr yn dod o hyd i ddata o'r rhyngrwyd eu hunain, efallai y gwelwch fod eu ffigurau ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn yr adnodd hwn, a oedd yn gywir adeg eu cyhoeddi.*
- *Roedd yr holl ddolenni gwe a ddarparwyd yn gywir adeg eu cyhoeddi.*

Adnoddau addysgol eraill defnyddiol gan Oxfam

- *Everyone Counts*

Mae'r adnodd mathemateg yma ar gyfer disgyblion rhwng 8 a 12 oed yn cefnogi elfennau allweddol o'r cwricwlwm mathemateg gydag ystadegau a straeon am fywyd go iawn. Bydd dysgwyr yn defnyddio data am blant sy'n byw o fewn cymunedau Bywydau Ifanc yn Ethiopia, India, Peru a Fiet-nam a byddant yn datblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth o bynciau fel amser a thrin data.

- I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts

- *More or Less Equal?*

Cyfres o adnoddau mathemateg, daearyddiaeth a Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed yw *More or Less Equal?* Mae'r adnod yn defnyddio data am fywyd go iawn ac astudiaethau achos o'r prosiect Bywydau Ifanc er mwyn ennyn diddordeb disgyblion a'u galluogi i ddeall perthnasedd ymarferol daearyddiaeth, mathemateg a Saesneg yn y byd o'u hamgylch.

Darllenwch ragor:

www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-maths

www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-geography

www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-maths

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Trosolwg i'r Athro

OXFAM

Pŵer data – Amlinelliad manwl o'r adnoddau

Trosolwg o'r uned	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Uned 1: *Meddwl am ddata*	• Deall beth yw data a sut y gellir eu prosesu i greu gwybodaeth. • Dod yn gyfarwydd â rhywfaint o ddata a gesglir gan sefydliadau a sut y defnyddir y data hyn. • Datblygu sgiliau casglu a chyflwyno data. • Cydnabod y bydd data "defnyddio amser" yn amrywio ymhlith pobl ifanc ac i fod yn ymwybodol o rai rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau.	• Bydd dysgwyr yn cydnabod beth yw data a sut y gellir eu prosesu i greu gwybodaeth. • Bydd dysgwyr yn disgrifio rhai enghreifftiau o ddata am eu bywydau sy'n cael eu casglu gan sefydliadau ac yn egluro sut y defnyddir y data hyn. • Bydd dysgwyr yn casglu ac yn cyflwyno data am eu defnydd dyddiol o amser. • Bydd dysgwyr yn cymharu eu data "defnydd amser" ag eraill ac yn nodi rhesymau posibl dros unrhyw wahaniaethau rhwng pobl ifanc yn eu dosbarth, y DU ac mewn mannau eraill yn y byd.	• Beth yw data? • Pam mae pobl yn casglu data a sut maen nhw'n eu defnyddio? • Pa ddata sy'n cael eu casglu amdanaf? • Sut ydw i'n treulio fy niwrnod? • Pa debygrwydd a gwahaniaethau ydych chi'n meddwl y gallai fod rhwng ein defnydd dyddiol o amser a defnydd pobl ifanc mewn rhannau eraill o'r DU neu'r byd?	• Gweithgaredd 1.1: *Beth yw data a pham y mae pobl yn eu casglu?* • Gweithgaredd 1.2: *Sut rwyf yn treulio fy niwrnod?*	• *Sioe sleidiau pŵer data*: sleidiau 2 i 13 • Taflenni gweithgareddau: *1. Fy niwrnod* *2 Siart bar ar gyfer fy nefnydd o amser*
Uned 2: *Data am y prosiect Bywydau Ifanc*	• Datblygu sgiliau defnyddio meddalwedd delweddu data i gyflwyno a chymharu defnydd dyddiol o amser i blant yng nghymunedau prosiect Bywydau Ifanc. • Deall y gwahaniaeth rhwng "anghenion" a "dymuno" a bod yn ymwybodol nad yw rhai pobl ledled y byd yn gallu cael gafael ar "anghenion" sylfaenol. • Datblygu sgiliau ar gyfer gweithio mewn grŵp i drafod syniadau a gwneud penderfyniadau. • Gwybod beth yw Bywydau Ifanc a deall y ffyrdd y gallai llywodraethau a sefydliadau ddefnyddio data a gesglir yn ystod y prosiect hwn.	• Bydd dysgwyr yn defnyddio meddalwedd delweddu data i gyflwyno a chymharu data "defnydd amser" gan blant yn y cymunedau sy'n rhan o brosiect Bywydau Ifanc. • Bydd dysgwyr yn rhestru rhai pethau y mae "angen" i ni fod yn eu gwneud yn dda mewn bywyd. • Bydd dysgwyr yn gweithio gydag eraill mewn grŵp i raddio blaenoriaethau gwario ar gyfer cymuned ddychmygol. • Bydd dysgwyr yn nodi tebygrwydd a gwahaniaethau yn y defnydd dyddiol rhwng gwahanol grwpiau o bobl ifanc, yn ogystal ag archwilio rhesymau posibl dros y rhain.	• Sut fyddech chi'n cyflwyno'r data hyn? • Beth y mae "angen" i ni ei wneud mewn bywyd? • Sut fyddech chi'n gwario arian cymuned? Pa ddata allai eich helpu i benderfynu? • Beth yw Bywydau Ifanc? • Pa debygrwydd a gwahaniaethau sydd mewn bywyd bob dydd a'r defnydd o amser rhwng gwahanol grwpiau o blant o'r cymunedau Bywydau Ifanc?	• Gweithgaredd 2.1: *Beth y mae angen i ni ei wneud yn dda mewn bywyd?* • Gweithgaredd 2.2: *Rhannu'r arian* • Gweithgaredd 2.3: *Croeso i Bywydau Ifanc* • Gweithgaredd 2.4: *Cymharu'r defnydd o amser*	• *Sioe sleidiau pŵer data: sleidiau* 14 i 32 • Taflenni adnoddau: *1. Dyma Afework; 2. Dyma Tufa; 3. Dyma Ravi; 4. Dyma Harika; 5. Dyma Luz; 6. Dyma Manuel; 7. Dyma Hung; 8. Dyma Lien; 9 Y defnydd o amser - rhyw; 10. Y defnydd o amser – ardaloedd dinesig a gwledig.* • Taflenni gweithgareddau: *1. Rhannu'r amser; 2. Siart bar ynghylch y defnydd o amser – Bywydau Ifanc* • Taenlenni: *1. Y defnydd o amser a rhyw; 2. Y defnydd o amser – ardaloedd dinesig a gwledig*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Trosolwg i'r Athro

OXFAM

Trosolwg o'r uned	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Uned 3: *Pŵer data*	• Datblygu sgiliau defnyddio meddalwedd i greu ffeithlun • Bod yn ymwybodol o rywfaint o ddata "llesiant" y mae llywodraethau, sefydliadau a chymunedau yn eu defnyddio i gynllunio ar gyfer y dyfodol. • Gwybod beth mae anghydraddoldeb yn ei olygu a chydnabod rhai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng ac o fewn gwledydd Bywydau Ifanc a'r DU.	• Bydd dysgwyr yn creu ffeithluniau syml sy'n codi ymwybyddiaeth o rai o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng bywydau pobl. • Bydd dysgwyr yn ystyried rhai mesurau "llesiant" y mae llywodraethau, sefydliadau a chymunedau yn eu defnyddio i gynllunio ar gyfer y dyfodol. • Bydd dysgwyr yn archwilio data "llesiant" o wledydd Bywydau Ifanc a'r DU.	• Pa ddata ydych chi'n meddwl allai fod yn ddefnyddiol i lywodraethau a sefydliadau wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol? • Beth mae hyn yn ei olygu? • Pa anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng ac o fewn gwledydd? • Sut a pham y gallai sefydliadau ddefnyddio ffeithluniau i gyflwyno data? • Pa ffeithlun allech chi ei greu i godi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng gwledydd?	• Gweithgaredd 3.1: *Mesur llesiant* • Gweithgaredd 3.2: Codi ymwybyddiaeth	• *Sioe sleidiau pŵer data*: sleidiau 33 i 41 • Taflen adnoddau: *1. Mesur llesiant* • Taflen Gweithgaredd: *1. Cynllunio eich ffeithlun* • Taenlen: *1. Mesur llesiant*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Dyma adnodd ynghylch dinasyddiaeth fyd-eang sydd wedi'i greu ar gyfer athrawon ynghylch cyfrifiadura ar gyfer disgyblion rhwng 9 ac 13 oed. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg sy'n anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull dysgu – meddwl – gweithredu, er mwyn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddulliau i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler:

www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau dynol • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl mewn modd creadigol a beirniadol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Camau gweithredu gwybodus a myfyriol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Rhoi gwerth ar amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaethau

Diolch yn fawr i Caroline Knowles, Rosaleen Cunningham, María José Ogando Portela, Ina Zharkevich, Bridget Azubuike a Patricia Espinoza Revollo o dîm Bywydau Ifanc Adran Datblygu Rhyngwladol Prifysgol Rhydychen am eu mewnbwn i greu'r deunyddiau hyn ac am ganfod a chasglu'r data. Caiff Bywydau Ifanc ei ariannu ar y cyd gan Gymorth y DU o'r Adran Datblygu Rhyngwladol.

Diolch yn fawr i Ken Kahn a Howard Noble o Brifysgol Rhydychen am gynnig syniadau a chymorth technolegol.

Diolch i Simon Humphreys o Computing At School (CAS) am ei gymorth gyda'r syniad cychwynnol ar gyfer adnodd

Diolch i Jo Elliott am ffilmio a golygu'r deunyddiau fideo.

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r athrawon, yr ysgolion a'r dysgwyr canlynol am eu mewnbwn i'r gwaith ysgrifennu, profi a/neu adolygu'r deunyddiau:

Carl Simmons, Prifysgol Edge Hill

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Trosolwg i'r Athro

OXFAM

Bob Breckwolt, Great Moor Junior School, Stockport

Ahmad Jalloh, Manchester Communication Academy, Manceinion

Jo Hodge, Our Lady of Lourdes Primary School, Southport

Donna Rawling, St. Mark's Church of England Primary School, Manceinion

Ian Keith Jones, Daniel Price a Nicola Bearmore, Ysgol San Sior, Llandudno

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

- I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education
- I gael rhagor o wybodaeth am brosiect Bywydau Ifanc: www.younglives.org.uk/
- I gael rhagor o wybodaeth am Computing At School: www.computingatschool.org.uk/

Cefnogir gan:

COMPUTING AT SCHOOL
EDUCATE · ENGAGE · ENCOURAGE
Part of BCS, The Chartered Institute for IT

Telerau defnyddio
Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam yn ogystal â Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.